| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 9 RHAGFYR 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Yr Adroddiad Chwarterol cyntaf gan y Grŵp Llywio Adferiad |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Rhaglen Adfer |
| **ADRODDIAD GAN:** | Cadeirydd y Grŵp Llywio Adferiad. |

## RHAGARWEINIAD

Ar 14 Medi 2010, cefnogodd y Cyngor ei Raglen Adferiad **(Papur 1)** a sefydlwyd y Grŵp Llywio Adferiad i oruchwylio ei gynnydd ac adrodd yn ôl i bob cyfarfod arferol o'r Cyngor hyd oni fyddai ymyrraeth y Gweinidog wedi dod i ben. Mae Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth GLIA ynghlwm **(Papur 2).**

## CYNNYDD

Mae'r GLIA wedi cyfarfod ar ddau achlysur.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 28 Hydref 2010 a'r ail ar 23 Tachwedd 2010. Oherwydd nad yw GLIA yn bwyllgor ffurfiol, nid yw ei raglenni a'i gofnodion yn cael eu cyhoeddi yn rheolaidd, felly mae copïau ynghlwm **(Papur 3).** Am wybodaeth fanwl am y materion a drafodwyd gan y GLIA, gwahoddir aelodau'r Cyngor i adolygu'r cofnodion ond gofynnir iddynt nodi bod y rheini ar gyfer yr ail gyfarfod ar ffurf ddrafft yn unig ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, i bwrpas adrodd yn ôl i'r Cyngor, rwy'n bwriadu canolbwyntio ar ddau o'r materion mwyaf arwyddocaol yn unig a ddisgrifir yn y paragraff isod.

## PRIF FATERION

1. Mae'r GLIA wedi nodi naw o faterion, ac rydym o'r farn bod raid gwneud cynnydd boddhaol yn eu cylch i sicrhau adferiad tymor hir a chynaliadwy. Rhestrir y materion allweddol hyn ym **Mhapur 4.**

   I roi sylw i'r materion hyn, cytunodd y GLIA y bydd yn gwahodd pob Aelod Portffolio perthnasol i wneud cyflwyniadau er mwyn diweddaru'r GLIA ar bob maes yn ei dro.

   Bydd y broses hon yn cychwyn trwy wahodd yr Aelodau Portffolio ynghyd â'r Swyddogion lle mae hynny'n berthnasol, sydd â chyfrifoldeb am "Ymgysylltiad Cymunedol" a'r "Broses Gyllidebol Gynhwysol" i'r GLIA nesaf ar 20 Ionawr 2011. Pwrpas y cyflwyniadau fydd galluogi'r GLIA i asesu'r sefyllfa ar y cychwyn, cynnydd hyd yma, datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol, amserlen ac adnoddau gyda golwg

ar sefydlu disgwyliadau/gofynion y GLIA ar gyfer cyflwyno adroddiadau a monitro yn y dyfodol. Yn sylfaenol, os bydd cynnydd da yn cael ei wneud, yna dim ond monitro cyffyrddiad ysgafn fydd ei angen.

Bydd y materion allweddol eraill a nodwyd yn cael sylw mewn modd tebyg mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Mae'r GLIA yn cydnabod yn llwyr nad oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn ond mae'n gofyn am y wybodaeth angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldeb i ddarparu rôl sicrwydd i'r Cyngor.

2. Mae'r GLIA wedi derbyn diweddariadau ym mhob cyfarfod ar y Rhaglen Adferiad Ehangach a bydd yn parhau i wneud hynny a bydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i elfennau o'r rhaglen pryd a phan fydd angen. Rhoddir pwyslais penodol ar unrhyw elfennau sydd, fe ymddengys, yn arafu'n ormodol neu'n methu symud ymlaen ar gyflymder rhesymol a gofynnir am wybodaeth bellach ynghylch unrhyw feysydd penodol sy'n peri pryder. Adroddir ar y rhain i'r Cyngor. Mae copi o statws cyfredol y Rhaglen Adfer ynghlwm fel **Atodiad 5.**

**<u>ARGYMHELLION</u>**

- Derbyn canfyddiadau cyfredol y GLIA sef bod cynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer yn foddhaol yn gyffredinol, a

- Cefnogi'r broses a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y GLIA i barhau i fonitro datblygiadau yn y dyfodol yn erbyn y meysydd allweddol a nodwyd a'r Rhaglen Adferiad ehangach.

ATODIAD / ENCLOSURE 1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 14 MEDI 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | SEFYDLU GRŴP LLYWIO ADFERIAD O'R CYNGOR LLAWN |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CREU CYFRWNG SY'N RHOI I GYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR LLAWN:-<br>- Rôl drosolwg/monitro mewn perthynas â'r Rhaglen Adfer barhaus;<br>- Cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd Adfer. |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR-GYFARWYDDWR DROS DRO |

## Rhagarweiniad

Yn y cyfarfod ar 14 Medi 2010 gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo ei Raglen Adfer.

Yn ogystal â nodi'r camau hynny a gwblhawyd yn llwyddiannus eisoes, bydd y Rhaglen Adfer yn amlinellu gweithgareddau ychwanegol y bydd raid i'r Cyngor eu cynnal er mwyn bodloni'r Gweinidog a'r Bwrdd Adfer bod y Cyngor yn addas, ac y bydd yn parhau i fod yn addas, i redeg ei fusnes ei hun heb ymyrraeth gan y Llywodraeth.

Rhaid monitro cynnydd gyda'r Rhaglen Adfer ac, er y bydd gan nifer o grwpiau/pwyllgorau cyfredol rôl i'w chwarae yn hyn o beth, cynigir y dylid sefydlu Grŵp Llywio Adferiad (y "Grŵp Adfer"). Byddai'r trefniadau cyffredinol fel sydd wedi ei nodi yn y diagram yn Atodiad A.

## Cylch Gorchwyl

Rôl benodol y Grŵp Adfer fydd monitro cynnydd cyffredinol y Cyngor yn erbyn y ffrydiau gwaith/prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen Adfer a rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod prosiectau yn cwrdd â'u hamcanion a'u hallbynnau; neu i ddwyn sylw'r Cyngor at unrhyw bryderon/gwendidau ac i wneud argymhellion / awgrymiadau ar gyfer camau unioni. Y prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen Adfer yw:-

1.0 Datblygu Aelodau

2.0 Ymgysylltu

3.0 Cyngor Effeithiol

4.0 Perfformiad

5.0 Enw Da

6.0 Adnoddau Dynol

7.0 Cryfhau Llywodraethu

Wrth wneud ei waith, gall y Grŵp Adfer gyfeirio materion i gyrff eraill, fel y Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Safonau, ar gyfer sylwadau neu adolygiad, fel y gwêl y Grŵp Adfer yn briodol.

Oherwydd nad yw'r adnoddau yn ddi-ben-draw, bydd gan y Grŵp Adfer hefyd rôl bwysig o ran gwneud argymhellion ar gyfer blaenoriaethau gweithgareddau o fewn y Rhaglen Adfer.

Bydd angen i'r Bwrdd Adfer allanol fod yn sicr bod y newidiadau a'r gwelliannau yn gynaliadwy cyn y byddant yn argymell i'r Gweinidog y dylai'r ymyrraeth ddod i ben. Mae'r Bwrdd Adfer wedi dweud *".....we remain concerned that some "backbench" members are not yet adequately involved in, and supportive of, the recovery. Some in particular appear unable to detach themselves from attitudes and ways of working that have become thoroughly discredited, and from issues and rivalries which should have been buried long ago".* Bydd yn rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Adfer i ystyried a yw'r Rhaglen Adfer yn ddigon cadarn i sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw, ac os nad yw, bydd yn nodi camau pellach y dylai'r Cyngor eu cymryd fel bod modd i'r holl aelodau symud ymlaen trwy gydweithrediad. Wrth roi sylw i'r mater hwn efallai y bydd angen i'r Grŵp Adfer weithio gyda'r Gweithgor Datblygu Aelodau a'r Pwyllgor Safonau.

Bydd Cadeirydd y Grŵp Adfer yn adrodd i bob cyfarfod blynyddol a chyfarfod cyffredin o'r Cyngor i roi sicrwydd i'r Cyngor (neu fel arall) bod y Rhaglen Adfer yn cael ei blaenoriaethu'n briodol a bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol a'i bod yn llwyddo i gwrdd â'r amserlen a chyflawni'r allbynnau.

Yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor, bydd y Grŵp Adfer hefyd yn trafod yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Adfer allanol. I nodi disgwyliadau priodol a chilyddol yn y cyswllt hwn, mae'n debygol y bydd y Grŵp Adfer, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn cyfarfod yn fuan gyda'r Bwrdd Adfer i gytuno ar ddisgwyliadau'r naill a'r llall ynghylch cyfathrebu ac adrodd.

Mae'r Cylch Gorchwyl a awgrymir ar gyfer y Grŵp Adfer ynghlwm yn Atodiad B.

**Cefnogaeth**

Awgrymir y bydd y Grŵp yn cael ei gynghori gan Swyddog Sicrwydd Prosiectau'r Cyngor a fydd, fel prif swyddogaeth, yn asesu cynnydd a pherfformiad Prosiectau'r Rhaglen Adfer ac yn adrodd i'r Grŵp Adfer. Bydd swyddogion perthnasol eraill hefyd yn cyfrannu at waith y Grŵp Adfer fel sy'n briodol i'r mater neu'r materion arbennig sydd dan sylw.

**Aelodaeth**

Bydd angen i aelodau benderfynu ar ba sail y bydd y Grŵp Adfer yn cael ei boblogi.

Bydd angen cymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth o bosib:-


- Bydd raid i'r Aelodaeth gymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau a dyletswyddau eraill ac ni ddylai unrhyw aelod fod yn rhan o'r Grŵp Adfer heb iddo/iddi fod yn fodlon bod ganddynt yr amser a'r ymrwymiad angenrheidiol.
- Gan fod yr adferiad yn fater i'r holl aelodau, ni ddylai'r Grŵp Adfer gael ei ddominyddu gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Arweinyddion Grwpiau.
- A ddylai fod "cap" ar nifer yr aelodau, ac os dylai, beth ddylai'r ffigwr hwnnw fod?
- Dymunoldeb cael aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith ar y Grŵp Llywio.
- Dymunoldeb cael aelodau profiadol ac aelodau newydd ar y Grŵp Adfer.

- Gallai Cadeirydd y Grŵp Adfer fod yn
  - Cadeirydd y Cyngor, neu
  - Yr Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, neu
  - Aelod blaenllaw o'r meinciau cefn sy'n uchel ei barch/pharch ar draws y Siambr.
- Er yr argymhellir na ddylai fod cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp Adfer, dylai'r aelodau ystyried a ddylid cynnwys cynrychiolaeth o'r holl grwpiau/pleidiau. Yn yr achos hwnnw, byddai pob grŵp/plaid yn dewis eu cynrychiolwyr eu hunain.
- A ddylai Arweinydd y Cyngor fod yn aelod?
- A ddylai Arweinydd yr Wrthblaid fod yn aelod?
- A ddylai'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol ac/neu Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yn aelodau?
- A ddylid penodi aelod rhydd ac, os dylid, sut y bydd ef/hi yn cael ei ddewis/dewis?
- A ddylai'r Cyngor ddewis Cadeirydd y Grwp Adfer a chaniatáu i'r Cadeirydd ddewis ei dîm/thîm ei hun gyda neu heb gyfyngiadau?
- A ddylai Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio ac/neu'r Pwyllgor Safonau fod yn aelodau o'r Grŵp Adfer?

**Argymhellion**

1. Bod aelodau yn cadarnhau'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad B. Bydd raid nodi yn glir a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau neu amrywiadau.
2. Bod aelodau yn penderfynu ar Gadeiryddiaeth ac aelodaeth y Grŵp Adfer.

**ATODIAD A**




* Nid yw'r rhain yn Bwyllgorau ffurfiol o'r Cyngor.

**ATODIAD B**

# GRŴP LLYWIO ADFERIAD

## 1.0 PWRPAS

1.1 Rhoi sicrwydd i'r Cyngor Sir bod y Rhaglen Adfer - sydd wedi ei dylunio i sicrhau y bydd ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben - yn gadarn ac yn cael ei chyflawni.

## 2.0 AELODAETH

2.1 Penderfynir ar yr aelodaeth gan y Cyngor llawn.

2.2 Ni fydd cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp. Ni fydd y Grŵp Adfer yn Bwyllgor nac yn Is-Bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor ond bydd yn weithgor sy'n cwrdd yn breifat ac yn adrodd i'r Cyngor llawn.

## 3.0 HYD AC AMLDER

3.1 Bydd y Grŵp Adfer yn parhau i weithredu am holl gyfnod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith ym mhob chwarter a bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hamseru fel bod modd adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor.

## 4.0 CYLCH GORCHWYL MANWL

4.1 Ystyried y Rhaglen Adfer gyffredinol a monitro cynnydd a chyflawniadau.

4.2 Sicrhau cyfathrebu effeithiol gydag aelodau'r Cyngor yn gyffredinol ar gynnydd a sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth ehangach ymysg aelodau.

4.3 Adolygu adroddiadau gan y Bwrdd Adfer a chyrff eraill a diwygio'r Rhaglen Adfer fel y cyfyd yr angen.

4.4 Cynghori'r Cyngor am unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu hystyried er mwyn sicrhau bod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben cyn gynted â phosib.

4.5 Adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer.

4.6 Gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer y Bwrdd Adfer allanol.

ATODIAD / ENCLOSURE 2

# GRŴP LLYWIO ADFERIAD

## 1.0 PWRPAS

1.1 Rhoi sicrwydd i'r Cyngor Sir bod y Rhaglen Adfer - sydd wedi ei dylunio i sicrhau y bydd ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben - yn gadarn ac yn cael ei chyflawni.

## 2.0 AELODAETH

2.1 Penderfynir ar yr aelodaeth gan y Cyngor llawn.

2.2 Ni fydd cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp. Ni fydd y Grŵp Adfer yn Bwyllgor nac yn Is-Bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor ond bydd yn weithgor sy'n cwrdd yn breifat ac yn adrodd i'r Cyngor llawn.

## 3.0 HYD AC AMLDER

3.1 Bydd y Grŵp Adfer yn parhau i weithredu am holl gyfnod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith ym mhob chwarter a bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hamseru fel bod modd adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor.

## 4.0 CYLCH GORCHWYL MANWL

4.1 Ystyried y Rhaglen Adfer gyffredinol a monitro cynnydd a chyflawniadau.

4.2 Sicrhau cyfathrebu effeithiol gydag aelodau'r Cyngor yn gyffredinol ar gynnydd a sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth ehangach ymysg aelodau.

4.3 Adolygu adroddiadau gan y Bwrdd Adfer a chyrff eraill a diwygio'r Rhaglen Adfer fel y cyfyd yr angen.

4.4 Cynghori'r Cyngor am unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu hystyried er mwyn sicrhau bod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben cyn gynted â phosib.

4.5 Adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer.

4.6 Gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer y Bwrdd Adfer allanol.

# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2010 (2:00pm)

### 8. SEFYDLU GRWP LLYWIO ADFER O'R CYNGOR LLAWN

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Yn ei gyfarfod heddiw, fe fyddai gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'i Raglen Adfer.

Yn ogystal â nodi'r camau oedd eisoes wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, byddai'r Rhaglen Adfer yn gosod allan weithgareddau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud er mwyn bodloni'r Gweinidog a'r Bwrdd Adfer bod y Cyngor yn gallu, ac y byddai'n parhau i allu rhedeg ei weithgareddau ei hun heb yr angen am ymyrryd.

Rhaid monitro cynnydd y Rhaglen Adfer a thra roedd yna nifer o bwyllgorau / grwpiau presennol fyddai'n chwarae rôl yn hyn, y cynnig oedd y dylid sefydlu Grwp Llywio Adfer. Byddai'r trefniadau cyffredinol fel y rhai oedd wedi'u darlunio yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cyngor.

Roedd y Cylch Gorchwyl oedd yn cael ei awgrymu ar gyfer y Grwp Adfer ynghlwm yn Atodiad B o'r adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gefnogaeth arfaethedig gan swyddog fyddai'n asesu cynnydd a pherfformiad Prosiectau'r Rhaglen Adfer ac yn adrodd yn ôl i'r Grwp Adfer.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at nifer o ffactorau y byddai'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth yng nghyswllt aelodaeth y Grwp Adfer.

Collwyd cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen y dylai aelodau'r Grwp Adfer i gyd gael eu dewis o blith rhai ar feinciau cefn yr Awdurdod.

Cyn y bleidlais, nododd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro mai mater i bob grwp gwleidyddol oedd penderfynu ar aelod i'w roi ymlaen gan roi sylw i ba mor ddymunol oedd cael aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a rhai nad oeddent ar y Pwyllgor Gwaith yn aelodau o'r Grwp Llywio. Fodd bynnag, roedd yn cytuno gyda'r farn gyffredinol roddwyd gerbron heddiw, sef oni fyddai yna nifer teg o aelodau o'r meinciau cefn, yna ni fyddai'r Grwp yn cyflawni ei amcanion mewn gwirionedd. Trwy gynnal trafodaethau trwy'r sianelau gwleidyddol arferol yng nghyswllt yr enwebiadau, fe allai'r Cyngor geisio cydymffurfio gydag ysbryd yr hyn yr oedd y Cynghroydd Owen yn ceisio'i gyflawni ond hefyd wneud yn siwr bod yna rai aelodau oddi ar y Pwyllgor Gwaith yn ogystal.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda Chylch Gorchwyl y Grwp Llywio Adfer fel oedd i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad.**

- **Mai aelodaeth y Grwp Llywio Adfer fydd un aelod o bob Grwp Gwleidyddol ynghyd ag un aelod digyswllt a bydd cyfarfodydd y Grwp yn cael eu cadeirio gan Is-Gadeirydd y Cyngor.**

## AELODAETH GLLA / MEMBERSHIP OF THE RSG

Y Cynghorydd / Councillor G O Jones (Cadeirydd / Chair)
Y Cynghorydd / Councillor K P Hughes
Y Cynghorydd / Councillor T Lloyd Hughes
Y Cynghorydd / Councillor H Eifion Jones
Y Cynghorydd / Councillor Tom Jones
Y Cynghorydd / Councillor J Arwel Roberts
Y Cynghorydd / Councillor G W Roberts, OBE
Y Cynghorydd / Councillor P S Rogers

**ATODIAD / ENCLOSURE 3**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro/Interim Managing Director,
Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council,
Swyddfa'r Sir,
LLANGEFNI,
Ynys Môn. LL77 7TW

Gofynnwch am/Ask for Mr John Gould
Adain Bwyllgorau/Committee Section
01248 752 515
jgxcs@anglesey.gov.uk
Fax: 01248 751 990

22 Hydref/October, 2010

At /To: Y Cynghorydd / Councillor G.O.Jones (Cadeirydd /Chair)
Y Cynghorydd / Councillor K.P.Hughes
Y Cynghorydd / Councillor T.Lloyd Hughes
Y Cynghorydd / Councillor H.Eifion Jones
Y Cynghorydd / Councillor Tom Jones
Y Cynghorydd / Councillor J.Arwel Roberts
Y Cynghorydd / Councillor G.W.Roberts, OBE
Y Cynghorydd / Councillor P.S.Rogers

Annwyl Aelod,

Estynnir gwahoddiad i chwi i gyfarfod cyntaf o'r Grwp Llywio Adferiad sydd i'w gynnal am 10:00am y bore, Ddydd Iau, 28 Hydref, 2010 yn Ystafell Bwyllgor 1,Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Mae copi o'r Rhaglen ynghlwm.

Yn gywir,

[redacted]

**RHEOLWR GWASANAETHAU PWYLLGORAU**

---

Dear Member,

You are invited to the inaugural meeting of the Recovery Steering Group to be held at 10:00am on Thursday 28 October, 2010 at Committee Room 1, Council Offices, Llangefni.

An Agenda for the meeting is attached.

Yours Sincerely,

[redacted]

**COMMITTEE SERVICES MANAGER**

# RHAGLEN

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Y Cynghorydd T.Lloyd Hughes

3. **CYLCH GORCHWYL**

   Cyflwyno er gwybodaeth, copi o'r adroddiad o'r Cylch Gorchwyl fel y derbyniwyd gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 14 Medi, 2010.
   **(PAPUR 'A')**

4. **DATAGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwydwr Corfforaethol (Cyllid)
   **(PAPUR 'B')**

5. **DIWEDDARIAD AM YR ADFERIAD**

   Bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn rhoi diweddariad am yr Adferiad fydd yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhaglen waith y Grwp Llywio.

## NODIADAU AR Y CYFARFOD O GRWP LLYWIO'R ADFERIAD A GYNHALIWYD AR 28 HYDREF, 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd G.O. Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr H. Eifion Jones, Tom Jones, J. Arwel Roberts, G.W. Roberts,OBE, P.S. Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Interim<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr K.P. Hughes, T. Lloyd Hughes. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Bill Horne (Y Bwrdd Adfer) |

Estynnwyd croeso cynnes i Mr. Bill Horne o'r Bwrdd Adfer.

Cyfeiriwyd hefyd at waeledd y Cynghorydd Derlwyn Hughes a gofynnwyd i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Interim gyfleu iddo ddymuniadau gorau'r Aelodau a'r Swyddogion am adferiad llawn a buan.

### 1. Datganiadau o Ddiddordeb

Dim i'w datgan.

### 2. Cylch Gorchwyl

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gopi o'r adroddiad a'r meini prawf a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 14 Medi, 2010.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim bod y Pwyllgor Llywio hwn wedi cael ei sefydlu fel modd o roddi i gynrychiolwyr y Cyngor llawn rôl drosolwg / monitro mewn perthynas â'r rhaglen adfer barhaus ac fel modd o gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd Adfer. Byddai hefyd yn adrodd i'r Cyngor llawn ynghylch a yw prosiectau yn cwrdd â'u hamcanion a'u hallbynnau neu rybuddio'r Cyngor am unrhyw bryderon y mae angen cymryd camau unioni yn eu cylch.

Mynegwyd pryder gan Aelod nad yw'r Grwp Llywio hwn yn wleidyddol gytbwys.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim y codwyd y mater hwn yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor pryd penderfynwyd y dylai'r aelodaeth gynnwys un cynrychiolydd o bob Grwp Gwleidyddol, un aelod rhydd gydag Is-Gadeirydd y Cyngor Sir yn cadeirio cyfarfodydd. Roedd cyfrifoldeb ar aelodau'r Grwp Llywio i adrodd yn ôl i'w grwpiau eu hunain ar y cynnydd a wnaed.

**PENDERFYNWYD bod Aelodau'r Grwp yn rhoi atborth i'w Grwpiau Gwleidyddol unigol.**

## 4. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) bod y Datganiad yn disgrifio blwyddyn ariannol 2009-10 ac yn cynnwys y cyfnod yr adroddwyd arno yn yr adroddiad Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol beirniadol a gyhoeddwyd yn Gorffennaf 2009, a'i fod hefyd yn cynnwys cyfnod cychwyn y broses adfer o'r pwynt isel hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill y gellid defnyddio'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol fel man cychwyn ar gyfer disgrifio gwendidau llywodraethu yn 2009-10 ac y gellid mesur unrhyw gynnydd dilynol yn erbyn hwnnw. Dywedodd hefyd bod yr Asesiad wedi cael ei drafod ar lefel y Grwp Arweinyddiaeth Strategol.

Roedd copi o'r Datganiad Llywodraethu arfaethedig ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad ac roedd y fersiwn gyfredol o'r Cynllun Adfer a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn Atodiad B yr adroddiad. Roedd yr archwilwyr allanol wedi gofyn am gael gwneud mân-newidiadau i destun y Cynllun Adfer a byddai'r rhain yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio i'w cadarnhau. Yn dilyn eu cadarnhau yn y Pwyllgor hwnnw, byddai'r Rheolwr-gyfarwyddwr Interim ac Arweinydd y Cyngor yn cael gwahoddiad i lofnodi'r Datganiad Llywodraethu ar ran yr Awdurdod.

Dygodd yr Aelodau sylw penodol at y paragraff a ganlyn yn yr adroddiad a oedd, yn eu barn nhw, yn un o'r sialensiau a oedd yn wynebu'r Awdurdod hwn, sef *"??? ."*

Codwyd y materion a ganlyn gan yr Aelodau:-

- Y teimlad nad yw aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwybodaeth lawn am yr argyfwng ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod hwn. Mae'n bwysig bod y Cyngor cyfan yn cael y ffigyrau diweddaraf.
- Mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar megis y Pwyllgor Penodiadau, ni chafwyd digon o wybodaeth ariannol gefndirol i'w galluogi i gyrraedd penderfyniad.
- Mae'n bwysig cael trafodaeth iach yng nghyfarfodydd y Cyngor wrth benderfynu ar gyllideb y Cyngor.
- Angen sefydlu cyfarfodydd misol rhwng Aelodau Portffolio a Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod y goblygiadau cyllidebol a gofynion staffio.
- Gormod o Banelau Tasg a Gorffen yn gweithredu ar hyn o bryd drwy'r Cyngor sy'n peri dryswch. Mae angen iddynt gwblhau eu gwaith a'i ymgorffori yn y broses gyllidebol. Mae'r amser y mae swyddogion yn ei dreulio mewn Panelau yn eu rhwystro rhag canolbwyntio ar y prif faterion sy'n wynebu'r Awdurdod hwn.

Mewn ymateb i'r uchod, gwnaeth y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim y sylwadau canlynol:-

1.Cynhelir sesiwn friffio mewn 3-4 wythnos i roddi i'r Cyngor gyfan y wybodaeth ddiweddaraf. Hyd oni fydd ychwaneg o fanylion yn cael eu cyhoeddi ar 17 Tachwedd, roedd hi'n anodd darogan y goblygiadau ariannol. Fodd bynnag, roedd angen proses llawer iawn mwy cynhwysol ar y gyllideb yn arbennig felly yn wyneb maint y problemau a wynebir. Roedd y penderfyniadau y bydd raid i'r Cyngor eu gwneud dros y ddwy i dair blynedd nesaf angen cefnogaeth mwyafrif helaeth aelodau'r Cyngor.

Dygodd sylw'r Aelodau at y ffaith bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn y broses ar hyn o bryd o wella'r trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb yn fisol.

2.Cyn mynd â'r mater yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith, cynhelir sesiwn friffio anffurfiol gyda nhw ar 3 Tachwedd i drafod Grwpiau Tasg a Gorffen, gweithio ar y cyd ar lefel ranbarthol a'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ynghyd ag adroddiad ar amrediad tebygol yr arbedion y bydd eu hangen dros y 4 blynedd nesaf a diweddariad ar y rhaglen gyfalaf.

3.Roedd rhai o'r materion o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at lif gwybodaeth rhwng Grwpiau Gwleidyddol ac ar draws y Cyngor ac roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim o'r farn y dylai'r Grwp hwn nodi hyn fel mater penodol sydd angen sylw.

4. O safbwynt Grwpiau Tasg a Gorffen, roedd o o'r farn bod yr aelodau angen proses yr oeddynt oll yn berchen arni ac yn ei deall, felly, pan oedd raid gwneud penderfyniadau anodd, gwnaed hynny'n ddigon agored, yn dryloyw a chan ymgysylltu drwy'r prosesau cywir. Os oedd hynny'n golygu bod angen dileu neu gyfuno rhai o'r grwpiau hynny, yna roedd hynny'n dderbyniol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Interim gymryd y sylwadau a godwyd gan yr aelodau i ystyriaeth.**

**5.** **<u>Y DIWEDDARAF AR YR ADFERIAD</u>**

Rhoes y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim gopi i'r aelodau o'i ymateb i'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ddiweddarach heddiw. Byddai ei friff o yn rhoddi i'r Grwp y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hyd yma.

Dywedodd bod yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar aelodau etholedig. Fodd bynnag, gwnaed cryn dipyn o waith i gryfhau ochr swyddogion y sefydliad. Nid oedd o'n credu y byddai'r Gweinidog yn dod â'r ymyrraeth i ben hyd onid oedd yn hyderus bod modd cynnal pethau o ochr swyddogion ynghyd ag ochr yr aelodau. Cydnabuwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru bod yr awdurdod hwn wedi gwneud llawer mwy o waith o safbwynt trawsnewid yr awdurdod na'r hyn y soniwyd amdano yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn arbennig felly ar ochr swyddogion y sefydliad. Mae'n debyg bod 75% o'r ymdrech mewn amser swyddogion wedi mynd i mewn i'r agwedd hon.

Er y gwnaed cryn dipyn o waith dros gyfnod byr o amser, roedd yr Awdurdod yn wynebu materion anodd o hyn ymlaen o safbwynt penderfynu ar y gyllideb, cynllunio perfformiad a rheoli risg. Roedd angen i'r Grwp Llywio hwn ddweud a ydoedd yn cytuno gyda dadansoddiad cyffredinol y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim ynghylch cynnydd neu a oedd angen gwneud gwaith ychwanegol ac a oedd y grwp yn dymuno rhoi sylw i unrhyw faterion penodol yn fanwl.

Rhoes yr aelodau sylw arbennig i'r materion isod dan y chwe maes a adnabuwyd yn adroddiad y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim sef:-

**1.Cryfhau Llywodraethu**

- Bod y Pwyllgor Cynllunio'n perfformio'n dda a bod ei enw da wedi gwella.
- Dim Cynllun Datblygu Lleol yn ei le gydag Aelodau a Swyddogion yn gweithio ar gynllun sydd wedi dyddio. Mae'n hanfodol cael Cynllun Datblygu Lleol neu Bolisïau Cynllunio Interim yn eu lle cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd Uned Bolisi wedi'i chyfuno gyda Chyngor Gwynedd yn costio mwy ar ddiwedd y dydd.
- Mae angen polisi interim ar fantais gynllunio.
- Cwestiynu cost hyfforddiant a datblygu ar gyfer Aelodau a Swyddogion.
- Perygl bod Aelodau yn llofnodi gormod o ddogfennau heb sylweddoli'r goblygiadau. Angen canfod beth mae awdurdodau eraill yn ei wneud.
- Nodi bwriad y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim i adrodd yn ôl i'r Grwp hwn ar adnewyddiad democrataidd cyn yr Wythnos Ddemocratiaeth a gynhelir ym mis Hydref 2011.
- Diolch i'r Bwrdd Adfer am roddi sylw i faterion llywodraethu yn eu hadroddiad(au).
- Bod angen sesiwn bellach gydag Ian Bottrill ar newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor cyn mynd â'r mater i'r Cyngor llawn.
- Angen sefydlu protocol rhwng Aelodau a Swyddogion. Mae aelodau angen trywydd i godi materion sy'n peri pryder os nad yw swyddogion yn gweithredu ar benderfyniadau a wnaed gan Aelodau. Roedd hwn yn un o'r materion y bu erydiad ymddiriedaeth yn ei gylch yn y gorffennol. Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim yn cydnabod bod yr agwedd hon ar goll o'r rhaglen waith gyffredinol a bod angen rhoddi sylw iddi.

**2.Aelodau a Swyddogion yn Gweithio ar y Cyd**

**3.Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad**

- Angen nodi materion penodol ar gyfer eu trafod pan yn trefnu sesiynau Hawl i Holi gyda'r cyhoedd. Eitemau sy'n canolbwyntio ar un mater efallai. Gellid ystyried sefydlu Fforwm i drafod cyfraddau busnes gyda phobl fusnes.
- Dylai'r aelod portffolio hefyd fod yn gyfrifol am berfformiad neu ddarpariaeth wael mewn gwasanaeth.
- Mae angen rhoddi sylw i fonitro salwch.

**4.Gwneud y Cyngor yn Debycach i Fusnes**

**5.Gwella Perfformiad a Rheoli Perfformiad**

**6.Gwella'r Modd y Rheolir Enw Da**

I gloi, roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim o'r farn bod angen i'r Grwp hwn asesu risgiau i adferiad, cynaliadwyedd a sut yr oedd mesur effeithiolrwydd y broses adfer.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r cyfarfod nesaf roddi sylw i adroddiad Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Swyddfa Archwilio Cymru a'r rhestr o flaenoriaethau a nodwyd heddiw e.e. y Cynllun Datblygu Lleol a gwelliannau i Adnoddau Dynol ac ati.

**Y CYNGHORYDD G.O. JONES (CADEIRYDD)**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro/Interim Managing Director,
Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council,
Swyddfa'r Sir,
LLANGEFNI,
Ynys Môn. LL77 7TW

Gofynnwch am/Ask for Mr John Gould
Adain Bwyllgorau/Committee Section
01248 752 515
jgxcs@anglesey.gov.uk
Fax: 01248 751 990

17 Tachwedd / November, 2010

At /To: Y Cynghorydd / Councillor G.O.Jones (Cadeirydd /Chair)
Y Cynghorydd / Councillor K.P.Hughes
Y Cynghorydd / Councillor T.Lloyd Hughes
Y Cynghorydd / Councillor H.Eifion Jones
Y Cynghorydd / Councillor Tom Jones
Y Cynghorydd / Councillor J.Arwel Roberts
Y Cynghorydd / Councillor G.W.Roberts, OBE
Y Cynghorydd / Councillor P.S.Rogers

Annwyl Aelod,

Estynnir gwahoddiad i chwi fynychu cyfarfod o'r Grwp Llywio Adferiad sydd i'w gynnal am 2:00pm, Ddydd Mawrth, 23 Tachwedd, 2010 yn Ystafell Môn, Llawr Isaf, Adain Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Mae copi o'r Rhaglen ynghlwm.

Yn gywir,

[redacted]

RHEOLWR GWASANAETHAU PWYLLGORAU

---

Dear Member,

You are invited to a meeting of the Recovery Steering Group to be held at 2:00pm on Tuesday 23 November, 2010 at Ystafell Môn, Social Services Department, Ground Floor, Council Offices, Llangefni.

An Agenda for the meeting is attached.

Yours Sincerely,

[redacted]

COMMITTEE SERVICES MANAGER

# RHAGLEN

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem i'w thrafod yn y cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd

3. **SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ASESIAD CORFFORAETHOL CYCHWYNNOL**

(a) Dweud bod y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ar 28 Hydref 2010, ar ôl ystyried yr uchod, wedi penderfynu cyfeirio'r asesiad i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w ystyried a rhoddi mandad penodol i Grwp Llywio'r Adferiad oruchwylio cynnydd.

(b) Cyflwyno copi o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.
**(PAPUR 'A')**

4. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn rhoddi sylw i'r materion hynny a godwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Grwp Llywio.
**(PAPUR 'B')**

5. **ETHOLIAD Y CYNGOR SIR 2012 - PROSIECT YMGYSYLLTU**

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro.
**(PAPUR 'C')**

6. **RHEOLI RHAGLEN**

Cyflwyno adroddiad llafar gan Ymgynghorydd Rheoli'r Rhaglen.

DRAFT

# NOTES OF A MEETING OF THE RECOVERY STEERING GROUP HELD ON 23rd NOVEMBER, 2010.

**PRESENT:** Councillor G.O.Jones (Chair)

Councillors H.Eifion Jones, K.P.Hughes, T.Lloyd Hughes,Tom Jones, J.Arwel Roberts.

**IN ATTENDANCE:** Interim Managing Director
Director of Legal Services/Monitoring Officer
Head of Service (Policy)
Programme Management Consultant
Central Support and Emergency Planning (AKW)
Committee Services Manager

**ALSO PRESENT:** Mr.Ian Bottrill (National Development Director, ContinYou, Cymru)

## 1. DECLARATION OF INTEREST.

None to declare

## 2. APOLOGIES

None received

## 3. MINUTES

Submitted and confirmed, the minutes of the meeting of the Recovery Steering Group held on 28th October, 2010.

## 4. WALES AUDIT OFFICE - PRELIMINARY CORPORATE ASSESSMENT

Reported - That the County Council had recently resolved to refer the preliminary corporate assessment to the Audit and Corporate Scrutiny Committees for consideration and that the Recovery Steering Group be given a specific mandate to oversee progress.

The current assessment identified a number of areas where the Council should consider taking action and was summarised in Appendix II of the report.This assessment would be updated as part of the WAO's Annual Improvement Report which was due to be issued to the Council in January 2011.

Members referred to the implementation of a Council wide appraisal system (P5 of report) and were aware that there were currently some 17 different appraisal systems being used throughout the Authority. Members considered it vital that Officers should continually monitor appraisal data in order to achieve 100% compliance across the Council.

DRAFT

The Director of Legal Services/Monitoring Officer (DLS/MO) in reply acknowledged this fact and stated that one of the strategic priorities contained in the HR Action Plan was to implement by the middle of next year, a single coherent corporate appraisal system. The new HR/ICT system (Northgate) would provide a means of checking whether appraisals were being carried out and whether agreed actions were being addressed. Officers would also be reporting back to this Steering Group in due course on the timetable for a competency based appraisal system.

Councillor J.A.Roberts stated that he had his reservations as regards the introduction of an appraisal system for elected members. He felt that it would be difficult to appraise those members who did not have the specific responsibilities of Portfolio Holders and the Chairs of Committees.

**RESOLVED to note the contents of the report and to also note that a further update in this respect was to be provided by the Wales Audit Office in January 2011.**

## 5. MATTERS ARISING FROM THE PREVIOUS MEETING

Reported - That in order to move forward with the work of the Steering Group it was suggested that the key areas identified at the last meeting be refined and developed into a scheduled set of reports/ presentations to be considered by future meetings of the Steering Group and, if at all possible, to ensure that such work was dovetailed with ordinary meetings of the full Council and the external Recovery Board.

The Steering Group was asked to consider the key areas identified in further detail and to populate the matrix at Enclosure 3 to enable Officers to devise a work programme for the next six months.

Members considered that two Portfolio Holders should be invited to attend the next meeting to address 2 of the 9 key issues identified and that the workload thereafter should be spread out over the course of the remaining meetings.

**RESOLVED**

- **That consideration be given at the next meeting to the Inclusive Budget Process and to Community Engagement and that the respective Portfolio Holders be invited to attend that meeting on 20th January, 2011.**
- **That the Director of Legal Services/Monitoring Officer be requested to write to the members of the Executive informing them that they will be invited to attend future meetings of the Steering Group in respect of those matters appertaining to their Portfolio responsibilities.**

## 6. COUNTY COUNCIL ELECTION 2012 - ENGAGEMENT PROJECT

Reported - That the Preliminary Corporate Assessment published in September 2010 identified inter-alia that " *The Council should develop and implement a strategy before the 2012 elections to inform citizens about the role and responsibilities of the modern councillor and, in so doing, promote greater diversity within the council*".

DRAFT

There was now an opportunity for this Council to be at the forefront of this activity. However, to progress, required ideas from existing members, a budget allocation for the task and the support of Council.

To be effective in promoting engagement the Council needed to work back from the County, community and town council elections scheduled for 3 May, 2012, providing for those interested in becoming potential candidates with an opportunity to learn about the role of a Councillor and assess whether they would like to stand for election. An awareness programme needed be in place by mid 2011.Paragraph 4 of the report referred to possible activity campaign options, and budget implications for discussion, estimated to be in the region of £11,500.

Councillor H.Eifion Jones considered that the best way to attract people to join this Council was complying with the Recovery process and improving services to the public. He, like other members present was uncomfortable with the amount of the contribution towards these activities. As a cost cutting measure, he suggested that officers should give consideration to the flyer prepared by Denbighshire County Council entitled 'Denbighshire Election Candidates Guide.'

Members considered that the message needed to be promoted via the Island's schools and colleges and that better use should be made of the Council website in promoting engagement. The youth of today were more likely to make use of Facebook,Twitter and their PC's rather than reading promotional flyers.

The IMD stated that the Group needed to decide as a point of principle, whether this Council should be making an effort to increase turnout and increase the interest in becoming a Councillor. The challenge to officers then would be to determine how to do that in the most cost effective manner. Officers would need to investigate whether there was any access to national funding and whether there was anything that could be done via the Electoral Commission that might enable some work to take place.

Councillor H.Eifion Jones considered that the number of empty seats on the Island's Town and Community Councils needed to be addressed, since these Councils were very often a stepping stone for individuals to become County Councillors.

The IMD in reply stated that this issue could be raised at the Forum arranged in mid January 2011 between this Council and the Town and Community Councils to investigate how both bodies can work and support each other.

**RESOLVED to agree in principle to the contents of the report and that officers be requested to come up with the most economical plan to meet that objective bearing in mind the comments raised at this meeting.**

## 7. PROGRAMME MANAGEMENT

The Programme Management Consultant handed out progress summary sheets and talked through the process that had been established to monitor Council projects. This process allowed projects to be monitored throughout their life with a view to ensuring performance and delivery of objectives.

DRAFT

Where there were delays or issues requiring attention, these would be highlighted by means of a traffic light system and recommendations brought to this Steering Group for approval. Those marked in red were the ones that this Group needed to focus upon.

The importance of the above was that the Wales Audit Office would be monitoring these projects as part of their assessment of the Council.The role of this Steering Group would be to fulfil that monitoring role on behalf of the Council and draw the County Council's attention to any projects which had gone off plan.

**RESOLVED to note the position and the explanations provided regarding the delays and that a further progress report be brought back to the next meeting of this Steering Group.**

The meeting concluded at 4.00pm
**COUNCILLOR G.O.JONES**
**(CHAIR)**

**ATODIAD / ENCLOSURE 4**

**DRAFFT**
**RHAGLEN WAITH Y GRWP LLYWIO ADFERIAD**
**RHAGFYR 2010 – MAI 2011**

| | | GWYBODAETH / CYNNWYS ? | FFORMAT? | YN ARWAIN | PA BRYD A PHA MOR AML? |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | **Ymgysylltiad cymunedol** | | | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaeth - Polisi | |
| 2. | **Adnewyddiad Democrataidd** | | | Alan Williams<br>Rheolwr Cefnogaeth Ganolog | |
| 3. | **AD** | | | Carys Edwards<br>Rheolydd Gwasanaethau<br>Adnoddau Dynol | |
| 4. | **Proses Gyllideb Gynhwysol** | | | David Elis-Williams<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid | |
| 5. | **CDLl/Polisïau Cynllunio Dros Dro** | | | Jim Woodcock<br>Pennaeth Gwasanaeth - Cynllunio | |
| 6. | **Atborth gan Aelodau ynghylch effeithiolrwydd hyfforddi a datblygu** | | | John Penri Williams<br>(Cadeirydd y Gweithgor Datblygu Aelodau) a<br>Miriam Williams<br>Uchel Swyddog Datblygu | |
| 7. | **Mantais Gynllunio** | | | Jim Woodcock<br>Pennaeth Gwasanaeth - Cynllunio | |
| 8. | **Protocol ar gyfer Rheoli Swyddogion sy'n tanberfformio a rôl Aelodau** | | | David Bowles<br>Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro | |
| 9. | **Ymddygiad sylfaenol Aelodau** | | | David Bowles<br>Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro | |